

### **Cyfarfodydd a Thrafodion Cyngorau**

1. Rhaid cynnal cyfarfod cyntaf Cyngor ar y cyfryw ddyddiad ac yn y cyfryw fan a bennir gan Weinidogion Cymru, sy'n gyfrifol am gynnull y cyfarfod.

2. Rhaid cynnal cyfarfod o'r Cyngor o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o dri mis a rhaid i'r cyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd.

3. Ar ôl y cyfarfod cyntaf, caiff y cadeirydd alw cyfarfod o'r Cyngor unrhyw bryd.

4. Os cyflwynir cais am gynnal cyfarfod, a hwnnw wedi'i lofnodi gan draean o leiaf o gyfanswm yr aelodau, i'r cadeirydd, a naill ai—

(a) mae'r cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod; neu

(b) heb wrthod fel y cyfryw, nid yw'r cadeirydd yn galw cyfarfod o fewn deng niwrnod i dderbyn y cais,

caiff yr aelodau hynny alw cyfarfod ar eu hunion.

5. Cyn pob cyfarfod o Gyngor, rhaid danfon hysbysiad o'r cyfarfod—

(a) sy'n nodi'r busnes y cynigir ei drafod yno; a

(b) sydd wedi ei lofnodi gan y Prif Swyddog neu gan un o swyddogion y Cyngor a awdurdodwyd gan y Prif Swyddog i arwyddo ar ei ran,

i bob aelod o'r Cyngor, neu ei anfon drwy'r post i'w preswylfa arferol neu eu cyfeiriad busnes arferol, a hynny o leiaf saith niwrnod clir cyn dyddiad y cyfarfod.

6. Ni fydd methu â chyflwyno hysbysiad i unrhyw aelod yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod.

7. Yn achos cyfarfod a elwir gan aelodau yn hytrach na'r cadeirydd, rhaid i'r aelodau hynny lofnodi'r hysbysiad ac yn y cyfarfod ni cheir trafod unrhyw fusnes ac eithrio'r busnes a bennir yn yr hysbysiad.

8. Mewn unrhyw gyfarfod o Gyngor rhaid i'r cadeirydd, os yw'n bresennol, lywyddu—

(a) os yw'r cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod rhaid i'r is-gadeirydd, os yw'n bresennol, lywyddu;

(b) os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol, rhaid i aelod a ddewisir gan yr aelodau sy'n bresennol lywyddu.

9. Rhaid penderfynu ynglŷn â phob cwestiwn mewn cyfarfod drwy fwyafrif pleidleisiau yr aelodau sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y cwestiwn ac, yn achos pleidlais gytbwys, bydd gan y person sy'n llywyddu ail bleidlais a honno'n bleidlais fwrw.

10. Ni chaniateir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod onid oes traean o leiaf o'r aelodau yn bresennol (heb gyfrif unrhyw leoedd gwag nac aelodau cyfetholedig).

11. Rhaid llunio cofnodion o'r trafodaethau ym mhob cyfarfod a'u cyflwyno er mwyn cytuno arnynt yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, a rhaid i'r person sy'n llywyddu yno eu lofnodi.

12. Rhaid cofnodi enwau'r aelodau a'r cadeiryddion sy'n bresennol mewn cyfarfod, yng nghofnodion y cyfarfod.

13. Ym mharagraff 3 o'r Atodlen hon, mae "cadeirydd" yn cynnwys is-gadeirydd sy'n gweithredu fel cadeirydd.